

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

MyDentist, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg

Dyddiad arolygu: 3 Medi 2018

Dyddiad cyhoeddi: 4 Rhagfyr
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	166
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	244
4.	Beth nesaf?	277
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	299
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	3030
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	3131
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	322

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o MyDentist yn 104 Heol Alexandra, Gorseinon SA4 4NX, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar 3 Medi 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod practis MyDentist yng Ngorseionon yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'w gleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y cleifion ac roedd polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod yr offer deintyddol yn cael ei gynnal a'i gadw a'i wasanaethu'n rheolaidd.

Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda ac roedd y polisïau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i gefnogi'r practis, y cleifion a'r staff. Fodd bynnag, mae angen i'r practis sicrhau bod ei holl staff clinigol yn cael yr hyfforddiant diweddaraf sy'n berthnasol i'w rôl.

Mae angen i'r practis sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cadw yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Mae'r practis yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion
- Roedd dystiolaeth o linellau cyfrifoldeb clir a gweithdrefnau rheoli ac arwain cadarn gan reolwr y practis a'r rheolwyr rhanbarthol
- Roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio offer pelydr-x yn ddiogel
- Roedd gan y practis amrywiaeth dda o bolisïau a gweithdrefnau ar waith

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid diwygio'r datganiad o ddiben a'r taflenni gwybodaeth i gleifion er mwyn cydymffurfio â rheoliadau cyfredol

- Dylai'r practis sicrhau y caiff holl ddrysau deintyddfeydd eu cau pan fydd cleifion yn cael triniaeth
- Dylid cynnal cofnodion cleifion yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, sef Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a Chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle'r oedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae MyDentist yn darparu gwasanaethau i gleifion yng Ngorseionon a'r ardal gyfagos. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys pedwar deintydd, un hylenydd, pedair nyrs ddeintyddol, un derbynnydd ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Roedd MyDentist, Gorseinon yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog, yn dda iawn neu'n dda.

Roedd gan y practis bolisi cwynion ac roedd system gadarn ar waith ar gyfer nodi cwynion ffurfiol ac anffurfiol. Fodd bynnag, roedd angen i'r polisi gynnwys manylion cyswllt y bwrdd iechyd lleol ac AGIC. Mae'r practis yn gofyn am farn cleifion drwy anfon negeseuon testun a chynnal arolygon cleifion ond gallai wneud mwy i roi adborth i gleifion ar ganlyniadau eu sylwadau

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 35 o holiaduron. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn gleifion yn y practis ers mwy na dwy flynedd. Ymhlith sylwadau'r cleifion roedd y canlynol:

Rwyf wedi bod yn dod i'r practis drwy gydol fy mywyd ac ni fu gennyf unrhyw bryderon.

Na, dwi'n fodlon iawn, rwyf bob amser wedi gallu gweld y deintydd pan fydd angen. Yn dda iawn wrth ddelio â'm plant. Bob amser wedi llwyddo i'm gweld pan oedd angen

Triniaeth gwrtais a sensitif bob amser

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo; ymysg sylwadau'r cleifion roedd y canlynol:

Yr unig beth sydd angen iddo wella, yn fy marn i, yw'r drefn pan fyddant yn canslo apwyntiadau. Ni chefais unrhyw wybodaeth am y sefyllfa a mynychais fy apwyntiad ond i ddarganfod ei fod wedi'i ganslo

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Yn yr ardal aros, gwelsom fod detholiad o wybodaeth hybu iechyd ar gael, gan gynnwys taflenni am driniaethau a chyingor ataliol.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gofal gydag urddas

Roedd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin gydag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff yn trin y cleifion mewn ffordd gwrtais a phroffesiynol.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn defnyddio swyddfa rheolwr y practis neu ddeintyddfa wag os oedd angen cael trafodaeth breifat wyneb yn wyneb neu dros y ffôn â chlaf.

Roedd gwybodaeth mewn llawysgrifen neu wybodaeth electronig am gleifion yn cael eu storio'n ddiogel, gan sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif wedi'i diogelu. Nodwyd gennym fod gan y practis bolisi cadw cofnodion, gweithdrefn llywodraethu gwybodaeth a pholisi diogelu gwybodaeth.

Roedd gan bob deintyddfa ddrysau y gellid eu cau pan oedd claf yn cael triniaeth er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas, ond nodwyd gennym nad oedd un wedi'i gau wrth i glaf gael triniaeth yn ystod yr arolygiad. Nodwyd gennym hefyd mai gwydr clir oedd yn y ffenestr yn nrws deintyddfa 4 ac y gallem edrych i mewn i'r ddeintyddfa wrth i glaf gael triniaeth. Argymhellwn y dylid tynnu'r gwydr neu y dylid gosod gwydr barugog yn lle'r gwydr clir er mwyn sicrhau preifatrwydd.

Roedd gan y practis bolisiâu priodol ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Yn ogystal, nodwyd gennym fod 9 Egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol¹ i'w gweld yn yr ardal aros. Mae'r egwyddorion yn

¹ <https://standards.gdc-uk.org/>

gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid tynnu'r gwydr yn nrws deintyddfa 4 neu osod gwydr barugog yn lle'r gwydr clir er mwyn sicrhau preifatrwydd i'r cleifion

Dylai'r staff clinigol sicrhau bod drysau deintyddfeydd ar gau pan fo cleifion yn cael triniaeth.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd y mwyafrif helaeth o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys (gymaint ag yr hoffent) mewn unrhyw benderfyniadau a wneir am eu triniaeth. Nodwyd ganddynt hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth glir am y triniaethau sydd ar gael a bod cost unrhyw driniaeth bob amser yn cael ei hegluro cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Roedd gwybodaeth i'w gweld yn yr ardal aros a oedd yn nodi costau triniaethau preifat a chostau triniaethau'r GIG. Dywedwyd wrthym hefyd fod costau unrhyw driniaeth yn cael eu trafod gyda'r cleifion yn ystod eu hapwyntiad fel rhan o'r broses o ddatblygu eu cynlluniau triniaeth.

Nodwyd gennym nad oedd gan y practis bolisi a oedd yn ymwneud yn benodol â'r trefniadau ar gyfer derbyn cleifion. Dywedwyd wrthym nad oedd y practis yn derbyn unrhyw gleifion newydd ar hyn o bryd. Serch hynny, argymhellwn y dylid datblygu polisi yn unol â'r rheoliadau cyfredol. Gwnaethom argymhell hefyd y dylid datblygu polisi sy'n ymdrin â'r trefniadau ar gyfer asesu cleifion, gwneud diagnosis a'u trin er mwyn ategu polisi cydsyniad y practis.

Roedd gan y practis Daflen Wybodaeth i Gleifion, a oedd ar gael yn hawdd i gleifion ac ymwelwyr â'r practis. Roedd angen i'r daflen hon gael ei diweddarau fel ei bod yn bodloni gofynion Rheoliadau Deintyddol Preifat 2017.

Gwelsom fod oriau agor y practis a'r rhif ffôn mewn argyfwng yn cael eu harddangos y tu allan i'r practis, ynghyd ag enwau a chymwysterau'r deintyddion i gyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddatblygu polisi sy'n ymwneud â'r trefniadau ar gyfer derbyn cleifion a'r trefniadau ar gyfer asesu cleifion, gwneud diagnosis a'u trin er mwyn ategu polisi cydsyniad y practis.

Dylai'r practis ddiweddarau ei daflen gwybodaeth i gleifion er mwyn bodloni'r rheoliadau cyfredol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur wrthym eu bod wedi gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Mae gan y practis wefan, a oedd yn cydymffurfio â chanllawiau hysbysebu moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn cynnwys manylion y triniaethau deintyddol preifat y mae'n eu rhoi, ynghyd â rhestr brisiau. Roedd hefyd yn rhoi canllawiau ar wneud cwyn, manylion tîm y practis, yr oriau agor a sut i gael triniaeth ddeintyddol mewn argyfwng. Argymhellwn y dylid diweddarau'r wefan i gynnwys manylion pob aelod o'r staff clinigol a'r rhifau cyswllt perthnasol ar gyfer cael triniaeth ddeintyddol mewn argyfwng.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddiweddarau ei wefan i gynnwys manylion pob aelod o'r staff clinigol a'r rhifau cyswllt perthnasol ar gyfer cael triniaeth ddeintyddol mewn argyfwng

Gofal amserol

Dywedodd dros dri chwarter o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn ei chael hi'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Dywedodd ychydig llai na hanner y cleifion a gwblhaodd yr holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd gwybodaeth am sut y gallai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau wedi'i harddangos wrth fynedfa'r practis ac yn cael ei rhoi fel rhan o neges peiriant ateb y practis.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau y câi'r cleifion eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym, pe byddai deintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn rhoi gwybod i'r claf a oedd yn aros am unrhyw oedi.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Mae'r practis yn rhoi triniaethau fel y nodir yn ei Ddatganiad o Ddiben².

Dangosodd adolygiad o gofnodion deintyddol y cleifion nad yw'r deintyddion yn cofnodi fel mater o drefn eu bod yn holi'r cleifion am eu hanes meddygol pan fyddant yn ymweld â'r practis. Ceir argymhelliad yn hyn o beth yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Lle y bo'n berthnasol, cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod y deintydd yn gofyn iddynt am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Hawliau pobl

Nid oedd gan y practis faes parcio ond roedd digon o le i barcio ar y strydoedd gerllaw. Roedd gan y practis ramp cludadwy i'w ddefnyddio ar gyfer y gris yn y fynedfa, gan olygu bod y practis yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn a phobl ag anawsterau symudedd. Roedd derbynfa'r practis, yr ardal aros, y toiled i'r anabl a dwy ddeintyddfa ar y llawr daear, a oedd yn golygu bod yr ardaloedd cleifion yn hygyrch i bawb.

Roedd canllawiau yn rhoiled y cleifion ac roedd yn addas i ddefnyddiwr cadair olwyn.

Roedd gan y practis bolisiau priodol ar waith i ddiogelu hawliau pobl, gan gynnwys polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Gwrando a dysgu o adborth

² Dogfen sy'n ofynnol yn gyfreithiol yw datganiad o ddiben sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

Roedd gan y practis bolisi cwynion ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat. Pan fo'n berthnasol, roedd y polisi'n gyson â phroses gwynion y GIG "Gweithio i Wella"³, ac o ran triniaeth ddeintyddol breifat, roedd yn gyson â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017⁴. Roedd y polisi yn cael ei arddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg yn y dderbynfa. Er bod y polisi yn cyfeirio at gysylltu â bwrdd iechyd lleol, argymhellwn y dylid diwygio'r polisi er mwyn cyfeirio at y bwrdd iechyd sy'n berthnasol i'r practis hwn a darparu manylion cyswllt ar ei gyfer, h.y. Abertawe Bro Morgannwg, ac y dylid cynnwys y wybodaeth gyswllt ar gyfer AGIC, yn hytrach na dim ond dolen i'w gwefan.

Rheolwr y practis oedd yr unigolyn a enwebwyd fel y prif gyswllt ar gyfer cwynion gan gleifion. Roedd y practis yn cadw ffolder electronig a oedd yn cynnwys cofnodion o'r cwynion a dderbyniwyd a'r canlyniadau. Roedd y wybodaeth hon yn cael ei monitro gan reolwr y practis ac yn ganolog gan y brif swyddfa.

Mae'r practis hefyd yn cadw cofnodion electronig o adborth llafar gan gleifion a chaiff y cofnodion hyn eu hadolygu'n rheolaidd gan reolwr y practis er mwyn nodi unrhyw themâu sy'n ailadrodd. Dywedwyd wrthym ar ôl cael triniaeth bod y cleifion yn cael neges destun yn gofyn am adborth am eu profiad yn y practis ac am y driniaeth a gawsant. Caiff sylwadau eu cofnodi a'u hadolygu gan reolwr y practis a'r brif swyddfa. Mae'r practis hefyd yn rhoi ffurflen adborth i'r cleifion ei chwblhau. Caiff yr holl adborth gan gleifion ei gyfleu i'r staff yn ystod cyfarfodydd practis er mwyn ei drafod a, lle y bo'n briodol, cymryd camau gweithredu. Byddem yn cynghori'r practis i ystyried cynnwys math o adborth ar ffurf "dywedoch chi: gwnaethom ni" mewn ymateb i sylwadau ac awgrymiadau'r cleifion yn ei gylchlythyr sy'n cael ei ddatblygu.

³ "Gweithio i Wella" yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt. Mae pryderon yn cynnwys materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, mewn perthynas â chyrrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru

⁴ <http://www.legislation.gov.uk/ksi/2017/202/made>

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddiwygio ei bolisi cwynion gan gyfeirio at Abertawe Bro Morgannwg a chynnwys y manylion cyswllt ar ei gyfer, ac er mwyn cynnwys gwybodaeth gyswllt ar gyfer AGIC.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Roedd y cyfleusterau clinigol yn ddigonol ac roedd trefniadau ar waith i ddefnyddio offer pelydr-X yn ddiogel, ac roedd dystiolaeth o waith cynnal a chadw parhaus a rheolaidd.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis ac roedd systemau ar waith er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Mae angen i'r practis sicrhau y caiff cofnodion meddygol cleifion eu cwblhau'n unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion yn ystod pob ymweliad.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef. Nodwyd gennym fod nifer o bolisiâu perthnasol ar waith, gan gynnwys asesiad risg asbestos, cynllun parhad busnes a pholisi iechyd a diogelwch. Roedd poster iechyd a diogelwch yn swyddfa rheolwr y practis. Gwelsom hefyd fod asesiad risg tân wedi'i gynnal yn 2014. Cawsom wybod mai polisi'r grŵp yw cynnal asesiadau o'r fath bob pum mlynedd. Dywedodd rheolwr y practis wrthym hefyd ei bod yn mynd o amgylch y practis bob bore, gan ddilyn rhestr wirio iechyd a diogelwch.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol naill ai'n lân iawn neu'n gymharol lân. Roedd yr adeilad yn ymddangos fel pe bai mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Gwelsom fod yr holl ardaloedd y gall y cyhoedd gael mynediad iddynt yn lân ac yn daclus. Gwelsom lwch ar ben y cypyrddau wal yn Neintyddfa 1 a Deintyddfa 2.

Argymhellwn y dylid ymdrin â hyn ac awgrymwn y dylid cynnwys trefn archwilio briodol fel rhan o weithdrefnau boreol rheolwr y practis.

Nodwyd gennym bod dyfeisiau cludadwy yn cael eu profi'n rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddiogel yn y practis. Gwelsom fod dyfeisiau diffodd tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad a nodwyd gennym eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau bod yr offer yn gweithio'n briodol. Roedd arwyddion priodol yn dangos ble roedd yr allanfeydd tân.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus, gwastraff (cartref) nad yw'n beryglus a gwastraff amalgam yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel. Roedd polisi glanhau a chynnal a chadw amgylcheddol hefyd ar waith.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd 2002, mae angen i gyflogwyr naill ai atal neu leihau amlygiad staff i sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd. Gwelsom fod gan y practis restr wirio rheolaethau 'Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd' (COSHH) a thaflenni data diogelwch perthnasol a oedd yn rhoi gwybodaeth am sylweddau sy'n 'beryglus i'w cyflenwi' a chyfarwyddiadau ar ddefnyddio sylweddau eraill a ddefnyddir yn y practis yn ddiogel.

Roedd gan y practis bolisi adrodd ar ddamweiniau a llyfr Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) a oedd yn cael ei gwblhau pan fyddai damwain yn digwydd. Nodwyd gennym hefyd bolisi argyfyngau meddygol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau nad oes llwch yn yr ardaloedd clinigol

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offerynnau deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05⁵.

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd ystafell ddihalogi bwrpasol ac roedd gwaith glanhau a dihalogi yn cael ei wneud â llaw yn y deintyddfeydd. Nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad fod yr arwynebeddau gwaith o amgylch y sinciau yn daclus ac yn lân. Dywedwyd wrthym fod y practis yn ystyried troi swyddfa rheolwr y practis yn ystafell ddihalogi bwrpasol ar gyfer y pedair deintyddfa.

Argymhellwn y dylai'r practis gaffael thermomedrau ar gyfer pob deintyddfa er mwyn sicrhau bod y dŵr a ddefnyddir i lanhau offerynnau ar y tymheredd cywir ac y cynhelir y tymheredd hwnnw. Pan ddywedwyd wrth reolwr y practis y dylai fod dwy sinc bwrpasol ar gyfer dihalogi neu dwy fowlen o fewn uned unigol, prynwyd bowlenni ar unwaith ac fe'u gosodwyd ym mhob deintyddfa. Argymhellwn hefyd y dylid nodi ardaloedd "glân" a "budr" pob deintyddfa yn glir.

Roedd archwiliadau cynnal a chadw wedi'u cynnal ar yr offer sterileiddio yn unol â chanllawiau'r gweithgynhyrchwr a gwelsom dystiolaeth fod y cofnodlyfrau ar gyfer archwilio'r offer sterileiddio yn cael eu cadw. Roedd gan y practis bolisi rheoli heintiau ar waith.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio.

Gwelsom dystiolaeth fod gan y rhan fwyaf o'r staff clinigol dystysgrifau ar ffeil yn cadarnhau eu bod wedi ymgymryd â hyfforddiant rheoli heintiau cyfredol. Nid oedd dystiolaeth bod dau ddeintydd a'r hylenydd wedi ymgymryd â hyfforddiant o'r fath ac argymhellwn y dylent ddarparu dystiolaeth eu bod wedi cwblhau hyfforddiant priodol.

Mae'r practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd fel yr argymhellir gan ganllawiau WHTM 01-05.

⁵ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis brynu thermomedrau ar gyfer pob deintyddfa er mwyn helpu i lanhau offerynnau ac ategu'r weithdrefn ddihalogi.

Dylid nodi ardaloedd "glân" a "budr" pob deintyddfa yn glir

Dylai pob aelod o'r staff fod wedi ymgymryd â hyfforddiant rheoli heintiau.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau mewn perthynas â chleifion, gan gynnwys polisi dadebru. Er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'i rôl, os ceir argyfwng meddygol, byddem yn argymhell y dylid diwygio polisi argyfyngau meddygol y practis er mwyn cynnwys gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau'r staff.

Mae dyletswydd ar ddarparwyr gofal iechyd i ddarparu sgiliau dadebru os bydd unigolyn yn dioddef ataliad cardio-anadlol ac i sicrhau y caiff staff eu hyfforddi a'u diweddarau'n rheolaidd hyd at lefel o fedrusrwydd sy'n briodol ar gyfer eu rôl. Ac eithrio un deintydd a'r hylenydd, gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfwng meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR). Roedd gan y practis swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Roedd gan y practis y cyffuriau argyfwng a'r offer dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)⁶. Nodwyd gennym fod gan y practis system ar waith ar gyfer sicrhau bod cyffuriau ac offer i'w defnyddio mewn argyfwng yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio.

Gwelsom fod padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel.

⁶ Nod y Cyngor Dadebru (DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu

Cadarnhaodd y staff eu bod yn deall y weithdrefn briodol ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw broblemau a oedd yn ymwneud â chyffuriau neu ddyfeisiau meddygol drwy gynllun Cerdyn Melyn MHRA⁷.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddiwygio ei bolisi ar gyfer argyfyngau meddygol i gynnwys gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau staff mewn argyfwng.

Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff clinigol wedi ymgymryd â hyfforddiant mewn argyfyngau meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR)

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed, a oedd yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu perthnasol. Ac eithrio un deintydd a'r hylenydd, gwelsom dystiolaeth fod y staff clinigol a'r staff anghlinigol wedi cwblhau hyfforddiant ym maes amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Argymhellwn y dylai pob aelod o'r staff ymgymryd â'r hyfforddiant hwn. Dywedodd rheolwr y practis wrthym mai hi oedd yr arweinydd diogelu a byddem yn awgrymu y dylai ymgymryd â hyfforddiant ym maes amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed hyd at lefel 3.

Roedd trefniadau ar waith i'r staff godi unrhyw bryderon, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hynny yn y practis.

Ar adeg yr arolygiad, cawsom dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff ac anfonwyd y gweddill i AGIC cyn cwblhau'r adroddiad hwn.

⁷ <https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/>

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ym maes amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Ar y cyfan, gwelsom fod y deintyddfeydd yn lân, o'r hyn y gellid ei weld, a bod offer priodol ar gael i sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd yr offer radiolegol mewn cyflwr da ac roedd yr ardaloedd rheoledig wedi'u nodi. Yr un eithriad oedd y ffaith nad oedd y peiriant OPG⁸ yn gweithio gan fod dŵr yn gollwng yn yr ystafell bwrpasol honno. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod trefniadau ar waith i ymdrin â'r dŵr oedd yn gollwng ac i drwsio'r offer. Gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil diogelu rhag ymbelydredd yn cael ei chynnal ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol. Roedd y rheolau lleol⁹ wedi'u harddangos yn y deintyddfeydd.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol¹⁰ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)¹¹ 2000, roedd pob aelod o staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol.

⁸ Mae OPG yn darparu pelydr-X panoramig neu olwg llydan o ran isaf y wyneb, gan ddangos yr holl ddannedd yn y gên uchaf a'r gên isaf mewn un llun

⁹ Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

¹⁰ Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

¹¹ http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2000/1059/pdfs/ukxi_20001059_en.pdf

Gwelsom fod gan y practis bolisi ar gyfer darparu offer gwaith a defnyddio'r offer hwnnw yn ddiogel a gweithdrefn offer gwaith.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae'r practis yn ceisio gwella'r gwasanaethau a ddarperir ganddo'n barhaus er budd y cleifion. Gwelsom dystiolaeth fod rhaglen o archwiliadau clinigol ar waith yn y practis. Roedd y rhaglen yn cynnwys archwiliadau radiograffeg, archwiliadau rheoli heintiau ac archwiliadau cadw cardiau cofnodion (gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmegu). Roedd y practis hefyd wedi cynnal archwiliad MyDentist o'r drefn ar gyfer rhagnodi cyffuriau gwrthfotig.

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, nid oedd gan y practis bolisiâu ar waith o ran y trefniadau ar gyfer derbyn cleifion na'r trefniadau ar gyfer asesu cleifion, gwneud diagnosis a'u trin.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedwyd wrthym fod y deintyddion yn cyfarfod yn rheolaidd â'r rheolwr clinigol rhanbarthol i drafod materion clinigol.

Efallai yr hoffai'r practis hefyd ystyried gwneud cais am adnodd datblygu practisau 'Maturity Matrix Dentistry' y Ddeoniaeth¹². Mae'r 'Maturity Matrix Tool' (MMD) yn adnodd datblygu practisau deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arfer gorau a gofynion deddfwriaethol ac ar sut y mae'n gweithio.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis gofnodion electronig a chofnodion ar bapur, a nodwyd gennym fod y rhain yn cael eu storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copïau wrth gefn yn cael eu creu o ffeiliau electronig.

Roedd nifer o bolisiâu a gweithdrefnau priodol ar waith yn y practis, gan gynnwys polisi cadw cofnodion.

¹² <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry>

Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion. Gwelsom mewn rhai achosion fod hepgoriadau, ac yn benodol nad oedd unrhyw gofnod o'r canlynol:

- Canfyddiadau Archwiliadau Periodontol Sylfaenol (BPE)¹³
- Canfyddiadau sgrinio ar gyfer canser y geg
- Archwilio hanes meddygol
- Trafod opsiynau triniaeth
- Cydsyniad cleifion

Yn ogystal, gwelsom mewn rhai achosion nad oedd unrhyw gyfiawnhad yn cael ei roi dros ddefnyddio profion pelydr-X na chanfyddiadau profion o'r fath, nad oedd yn gydnaws â chanllawiau cyfredol.

Argymhellwn y dylid cwblhau nodiadau cleifion yn unol â'r canllawiau cyfredol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cwblhau yn ystod ymweliad pob claf er mwyn cofnodi gwybodaeth gynhwysfawr am yr archwiliad, y cyngor a'r driniaeth a roddwyd a gwybodaeth berthnasol am luniau pelydr-X.

¹³ Mae BPE yn dalfyriad o'r term Saesneg 'basic periodontal examination' ac mae'n archwilio cyflwr iechyd eich deintgig.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd tystiolaeth o arweinyddiaeth a llinellau atebolrwydd da.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol ar waith yn y practis, ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu bob blwyddyn. Roedd angen i'r practis roi gweithdrefn ar waith i'r staff gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y polisiau a'r gweithdrefnau hyn.

Roedd gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith er budd staff, gan gynnwys proses flynyddol ar gyfer arfarnu staff a chyfarfodydd staff rheolaidd.

Mae angen diwygio'r datganiad o ddiben er mwyn cydymffurfio â rheoliadau cyfredol.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae MyDentist, Gorseinon, yn rhan o grŵp deintyddfeydd MyDentist yng Nghymru a Lloegr. Mae uwch swyddog ym mhrif swyddfa'r Grŵp yn gweithredu fel yr unigolyn cyfrifol¹⁴. Rheolwr y practis yw'r rheolwr cofrestredig ac mae

¹⁴ Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli;

hefyd yn rheoli'r practis o ddydd i ddydd gyda chymorth rheolwr ardal. Gwelsom fod trefniadau arwain da ar waith yn y practis a bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion ond argymhellwn y dylai'r practis wneud trefniadau i'r staff gadarnhau eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Gwelsom y Datganiad o Ddiben a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol ond roedd angen ei ddiweddarau i gynnwys y staff sy'n gweithio yn y practis ar hyn o bryd ac i gynnwys manylion cyswllt ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn yr adran sut i gwyno.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei bod yn ymwybodol o'i dyletswyddau o ran yr hysbysiadau, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb neu newidiadau i'r rheolwr cofrestredig, sy'n rhaid eu hanfon at AGIC o dan reoliadau 25-29 o'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar eu cyfer. Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y practis yn cael ei harddangos.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ofyn i'r staff dystio eu bod wedi darllen y polisiâu ac wedi'u deall.

Dylid diwygio'r Datganiad o Ddiben er mwyn cynnwys manylion yr holl staff sy'n gweithio yn y practis ac er mwyn darparu manylion cyswllt ar gyfer y bwrdd iechyd lleol fel rhan o'i broses ar gyfer ymdrin â chwynion gan gleifion.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd nifer o bolisiâu a gweithdrefnau adnoddau dynol ar waith yn y practis er mwyn helpu i recriwtio a chadw staff. Gwelsom hefyd y llawlyfr i gyflogeion a gaiff ei roi i bob aelod o'r staff.

Nodwyd gennym fod gan bob aelod o staff gontract cyflogaeth a oedd yn cael ei gadw yn ffeiliau'r staff. Gwelsom dystiolaeth o raglen sefydlu'r practis a oedd yn cynnwys rhestr wirio gynhwysfawr. Pan fyddai staff asiantaeth yn cael eu defnyddio dros dro, roedd gweithdrefn ar waith i wneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r systemau a'r prosesau sydd ar waith yn y practis.

Gwelsom dystiolaeth fod arfarniadau staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u dogfennu. Mae cyfarfodydd arfarnu yn cynnwys trafodaeth ynghylch hyfforddiant a datblygiad.

Gwelsom dystysgrifau yn dangos tystiolaeth bod y rhan fwyaf o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau ac a oedd yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Cyfeiriwyd at y diffygion hynny yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd ar gyfer pob aelod o'r staff. Gwelsom gofnodion y cyfarfodydd hyn. Dywedwyd wrthym, ar ôl pob cyfarfod, y caiff y cofnodion eu dosbarthu i bob aelod o'r staff a'u harddangos yn ystafell y staff er mwyn gwneud yn siŵr bod pob aelod o'r staff, gan gynnwys y rhai na wnaethant fynychu, yn ymwybodol o'r materion a drafodwyd a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt. Rydym yn cynghori bod pob aelod o'r staff yn eu llofnodi i ddangos eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Mae'r Rheoliadau ar gyfer Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau clirio'r DBS wedi'u cynnal ar gyfer y staff clinigol a'r staff anghlinigol.

Mae'n ofynnol i staff clinigol gael eu himiwneiddio yn erbyn Hepatitis B er mwyn amddiffyn y cleifion a nhw eu hunain yn erbyn yr haint. Darparodd y practis dystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol, ac roedd un aelod o'r staff yn aros am ganlyniadau ei phrawf gwaed diweddar.

Cadarnhaodd rheolwr y practis yn ei rôl fel rheolwr cofrestredig ei bod yn ymwybodol o'i dyletswyddau a'i rhwymedigaethau o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle gwnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw faterion roedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: MyDentist, Gorseinon

Dyddiad arolygu: 3 Medi 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diffyg cydymffurfio sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: MyDentist, Gorseinon

Dyddiad arolygu: 3 Medi 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylid tynnu'r gwydr yn nrws deintyddfa 4 neu osod gwydr barugog yn lle'r gwydr clir er mwyn sicrhau preifatrwydd i'r cleifion	4.1 Gofal Gydag Urddas; Rheoliadau	Cysylltu â'r adran cyfleusterau er mwyn ychwanegu gwydr barugog at ddrws deintyddfa 4.	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd 14/09/18
Dylai'r staff clinigol sicrhau bod drysau deintyddfeydd ar gau pan fo cleifion yn cael triniaeth.	Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 15	Siarad â'r clinigwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall y rheoliadau.	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd 04/09/18
Dylai'r practis ddatblygu polisi sy'n ymwneud â'r trefniadau ar gyfer derbyn cleifion a'r trefniadau ar gyfer asesu cleifion, gwneud diagnosis a'u trin er mwyn ategu polisi cydsyniad y practis.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion; Rheoliadau Deintyddiaeth	Mae polisi derbyn bellach ar gael yn y practis a gaiff ei ddiweddarau i adlewyrchu'r ffaith bod y practis bellach yn derbyn cleifion newydd	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd 09/10/2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Breifaf 2017 Adran 8			
Dylai'r practis ddiweddarau ei daflen gwybodaeth i gleifion er mwyn bodloni'r rheoliadau cyfredol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifaf 2017 Adran 6	Cael gafael ar gopi o daflen y practis y gellir ei golygu a'i diweddarau.	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd 10/09/18
Dylai'r practis ddiweddarau ei wefan i gynnwys manylion pob aelod o'r staff clinigol a'r rhifau cyswllt perthnasol ar gyfer cael triniaeth ddeintyddol mewn argyfwng	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifaf 2017 Adran 6	Mae'r rhif ffôn ar gyfer argyfwng y tu allan i oriau ar gael ar beiriant ateb y practis ac ar ddrws ffrynt y practis. Anfonwyd cais i'r tîm datblygu osod y rhif ffôn mewn argyfwng ar y wefan	Swyddog rheoliadol Sarah-Jane Davies	Anfonwyd y cais ar 09/10/2018 – cafwyd cadarnhad y gellid gwneud hynny. Y swyddog rheoliadol i gasglu gwybodaeth ynghyd ar gyfer gwahanol feysydd a'i chyflwyno i'r datblygwr

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
				30/10/2018
Dylai'r practis ddiwygio ei bolisi cwynion gan gyfeirio at Abertawe Bro Morgannwg a chynnwys y manylion cyswllt ar ei gyfer, ac er mwyn cynnwys gwybodaeth gyswllt ar gyfer AGIC.	6.3 Gwrandio a Dysgu o'r adborth; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adrannau 6 ac 8	Rhoddodd y swyddog rheoliadol adborth i'r tîm cymorth cleifion ac mae manylion y bwrdd iechyd ac AGIC bellach wedi'u cynnwys	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd 01/10/2018
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Dylai'r practis sicrhau nad oes llwch yn yr ardaloedd clinigol	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adran 22	Trafod rheoli heintiau a threfniadau cadw tŷ yn y deintyddfeydd gydag aelodau o'r staff. Archwiliadau wythnosol ar hap i'w cynnal gan Reolwr y Practis. Archwiliadau chwarterol i'w cwblhau ar y glanhawr	Rheolwr y Practis	09/10/2018 ac yn mynd rhagddo
Dylai'r practis brynu thermomedrau ar gyfer pob deintyddfa er mwyn helpu i lanhau offerynnau ac ategu'r weithdrefn ddihalogi.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dadhalogi,	Archebu thermomedrau gan Proactis a chwblhau hyfforddiant gyda'r nyrsys a sicrhau eu bod yn eu defnyddio	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd 04/10/2018
Dylid nodi ardaloedd "glân" a "budr" pob	WHTM 01-05	Dylid gosod arwyddion er mwyn nodi	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
deintyddfa yn glir		ardaloedd glân/budr neu goch/gwyrdd yn glir		14/09/18
Dylai pob aelod o'r staff fod wedi ymgymryd â hyfforddiant rheoli heintiau.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 17 (3)(a)	Dylai pob aelod o'r staff clinigol gwblhau hyfforddiant ym maes rheoli heintiau	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd 11/10/2018
Dylai'r practis ddiwygio ei bolisi ar gyfer argyfyngau meddygol i gynnwys gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau staff mewn argyfwng.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 8	Dylid cwblhau polisi penodol ar gyfer y practis er mwyn adlewyrchu'r trefniadau lleol sydd ar waith yn y practis hwn.	Rheolwr y Practis	12/10/2018
Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff clinigol wedi ymgymryd â hyfforddiant mewn argyfyngau meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR)	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 17 (3)(a) Cyngor Dadebru (DU)	Hyfforddiant CBR bob blwyddyn	Rheolwr y Practis	Yr hyfforddiant nesaf 06/12/18
Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ym maes amddiffyn	2.7 Diogelu plant ac oedolion sy'n	Y staff i ymgymryd â hyfforddiant diogelu fel rhan o academi hyfforddiant	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.	wynebu risg; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 17 (3)(a)	y cwmni		
Yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cwblhau yn ystod ymweliad pob claf er mwyn cofnodi gwybodaeth gynhwysfawr am yr archwiliad, y cyngor a'r driniaeth a roddwyd a gwybodaeth berthnasol am luniau pelydr-X.	Cadw cofnodion; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adran 20	Cynhelir trafodaethau gyda'r staff clinigol er mwyn sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cwblhau'n gywir. Cwblheir archwiliadau bob mis hyd nes y bydd rheolwr y practis yn fodlon â chanlyniad yr archwiliad. Caiff yr archwiliadau eu hanfon at y rheolwr cymorth clinigol a'u hadolygu. Cynlluniau gweithredu i'w rhoi ar waith gan y rheolwr cymorth clinigol os bydd eu hangen.	Rheolwr y Practis	31/10/2018 ac yn mynd rhagddo
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dylai'r practis ofyn i'r staff dystio eu bod wedi darllen y polisiâu ac wedi'u deall.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd; Rheoliadau Deintyddiaeth	Caiff pob polisi ei drafod mewn cyfarfod tîm, caiff taflenni cymeradwyo eu cwblhau a'u lanlwytho i adnodd cydymffurfio'r cwmni	Rheolwr y Practis	30/11/2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Breifaf 2017 adran 8			
Dylid diwygio'r Datganiad o Ddiben er mwyn cynnwys manylion yr holl staff sy'n gweithio yn y practis ac er mwyn darparu manylion cyswllt ar gyfer y bwrdd iechyd lleol fel rhan o'i broses ar gyfer ymdrin â chwynion gan gleifion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifaf 2017 adrannau 5 a 7 ac Atodlen 1	Caiff y datganiad o ddiben ei ddiweddarau er mwyn cynnwys manylion y staff, gwybodaeth am gwynion a'r Bwrdd Iechyd Lleol.	Rheolwr y Practis a'r tîm Cofrestru yn y ganolfan gymorth	12/10/18

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): **RACHEL ARTHUR**

Teitl swydd: **RHEOLWR Y PRACTIS** Dyddiad: **11/10/2018**